

CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED

CYFARFOD MICROSOFT TEAMS am 7.30 p.m. 16ed o Fawrth 2021

Yn Bresennol: Cyng. Delme Phillips (Cadeirydd), Cyng. Bryan Davies, Cyng. Elfed Davies, Cyng. Julian Evans a Cyng. Phillip Jones.

Ymddiheuriadau: Cyng. Eifion Jones, Cyng. Eurig Rees, Cyng. Elsbeth Page , Cyng. Sir , Irfon Jones.

Materion Personol / Cyhoeddiadau -Gohirwyd cyfarfod 15fed o Fawrth am pedwar awr ar hugain yn dilyn methiant Microsoft Teams ag adawodd rhan fwyaf o'r aelodau heb fynediant. Llwyddod y Cyng. Eurig Rees ar Cyng. Elsbeth Page ymuno â chyfarfod Nos Lun ond yn methu â mynychu ar 16ed o Fawrth, anfonasant eu ymddiheuriadau.

64	<u>Datgelu Buddianau Personol</u> Datganwyd gan Cyng. Bryan Davies a'r Cyng. Elfed Davies eu diddordeb personol mewn mater cynllunio PL/01060 - wedi'i nodi yn y gofrestr. Fe wnaeth y Cadeirydd drefnu i Ymgynghoriad Cynllunio PL/01060 gael ei symyd i ddiwedd yr agenda i alluogi y Cyng. Bryan Davies a Cyng. Elfed Davies adael y cyfarfod cyn i'r cais cynllunio gael ei drafod.
65	<u>Cadarnhau'r Cofnodion - 15.02.21</u> Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15.02.21 yn gofnod cywir gan y Cyng. Bryan Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Elfed Davies.
66	<u>Materion yn Codi o'r Cofnodion</u>
a.	<u>Gwasanaeth Bws 460</u> - Penderfynodd y Cyngor bod y Clerc i yn gwneud holiadur er mwyn cofnodi'r galw am gwasanaeth bws rheolaidd drwy Hermon.
b.	<u>Safle Ail-gylchu</u> - Dim datblygiad newydd ar hyn o bryd.
c.	<u>Cylch Meithrin</u> - Cafwyd Cyfarfod Zoom gan y Pwyllgor ar 27.2.21 - adroddwyd gan y Cyng. Elfed Davies bod y Pwyllgor wrthi'n gwneud trefniadau cywir gan hysbysebu am ofalwr etc.
d.	<u>Cyfleusterau Cyhoeddus</u> - Cysylltodd y Clerc â Rhys Davies a gadarnhaodd fod anfoneb llynedd am y cyfnod 01/04/2019-31/03/2020 gyda'r Cyngor Cymuned yn talu 50% o'r gost o redeg/cynnal a chadw'r cyfleusterau. Am y flwyddyn 2020/2021 mae'r cyngor yn gyfrifol am 75% o'r costau. Am y flwyddyn 2021/2022 bydd y Cyngor Cymuned yn gwbl gyfrifol am y costau ac anfonir y biliau cyfleustodau yn uniongyrchol i'r Cyngor Cymuned. Gan fod y Cyngor yn gwbl gyfrifol am costau cynnal a chadw'r Cyfleusterau , penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu â Rhys Davies, Cyngor Sir Gâr. i holi am allwedd sbâr i'r Cyfleusterau, i alluogi aelodau o'r Cyngor archwilio'r cyfleusterau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw i safon foddhaol o lendid ac atgyweiriad. Mae'r Clerc hefyd i gysylltu â Rhys Davies er mwyn cael gwybodaeth polisïau Sir Gâr ynglyn a Toiledau i'r Anabl. Mae diffyg eglurder gan fod y brif Cyfleusterau ar y penwythnos.
67.	<u>Gohebiaeth</u> Mae copiau o'r holl e-byst perthnasol a dderbyniwyd wedi'u hanfon at Gynghorwyr cyn y cyfarfod.
a.	<u>Apêl Cadeirydd Cyngor Sir Gâr</u> - Penderfynodd y Cyngor ddim i gyfranu yn unol
b.	â phenderfyniad y flwyddyn flaenorol.
c.	<u>Rhybydd Ymosodiad Seiber</u> - Penderfynwyd bod y Cadeirydd a'r Clerc yn cadw cyfrinair Gwefan ac e-bost y Cyngor. Penderfynwyd hefyd bod cyfrinair y Gwefan ac e-bost yn cael eu newid o leia unwaith y flwyddyn er mwyn cynnal diogelwch ar-lein.

68.a	<p><u>Taliadau a Chyllud</u></p> <p>Cyflog y Clerc - Chwefror 2021 £210.10 Treuliau'r Clerc hyd at 31.03.2021 £ 65.22 Un Llais Cymru - 50% Cost Cwrs Sgiliau £ 15.00 Cadeiryddio Cyng Bryan Davies Un Llais Cymru - Aelodaeth £158.00</p> <p><u>Lwfans Cynghorwyr</u></p> <p>Cyng. Bryan Davies £150.00 Cyng. Julian Evans £150.00 P.W.L.B. - gwnaed dau ad-daliad yn ystod y flwyddyn, £390 ym mis Gorffennaf 2020 a £382.50 ym mis Ionawr 2021 - gan adael swm o £3000 ar y benthychiad. Cyngor Sir Gaerfyrddin-amcamgyfrifon o'r biliau sydd i'w talu ond anfonebau heb eu derbyn eto: Cyfleusterau Cyhoeddus c.£2,200. Goleuadau Stryd c.£1,900.</p> <p>Cytunodd y Cyngor i'r taliadau uchod gael eu gwneud. Ynglyn a Lwfans Cynghorwyr mae'r Clerc i ddanfôn llythyr i phob aelod iddynt gael y dewis ymuno mewn neu allan o dderbyn y lwfans blyneddol hwn. Mae'r Cyngor yn cytuno bod y Clerc i wneud yn siwr bod T.A.W. yn cael ei adennill am eitemau deunydd ysgrifennu.</p>
68.b	<p><u>Adran 137 - taliadau a wneir o dan y Cynllun Grantiau Bach</u></p> <p>Penderfynodd y Cyngor ganiatau'r taliadau canlynol:</p> <p>Cywion Cynwyl - £490.00 Aelwyd Cynwyl Elfed - £490.00 Cylch Meithrin Bro Elfed - £490.00</p>
69	<p><u>Cyfrifon</u></p> <p>Gweler y cyfrifon atodedig ar gyfer 1/4 tri ar 31.12.2020</p>
70 a. b. c. d.	<p><u>Materion Priffyrdd</u></p> <p>Ffynnon Henry - Y ffordd mewn cyflwr dirifol ar Cornel Penrhiwcoch Gorllwyn - Penpostgwyn i Pum Heol - Tyllau yn y ffordd yn broblem dirifol A484 - gweithfeydd ar y ffordd ô Gaerfyrddin i Cynwyl Elfed - ar safle'r gwaith ffordd/ goleuadau traffig - mae yna dipyn o faw ar wyneb y ffordd fyw. Mae angen icadw ffyrdd byw yn lân heb berygl malurion ar bob adeg. Arwydd 30 m.y.a. yn dal ar lan ym mharth 20 m.y.a. drwy Cynwyl Elfed.</p>
71 a. b.	<p><u>Unrhyw Mater Arall</u></p> <p>Newyddion positif am Ysgol Gynradd Cynwyl Elfed yn dilyn adroddiad diweddaraf ESTYN. Mae safonau wedi gwella ers yr arolwg diwetha a'r mesurau arbennig wedi wedi eu codi. Fe wnaeth y Cadeirydd cydnabod ymdrech a gwaith caled y Staff a'r Llywodraethwyr i godi safonau a chynnal gwelliant parhaol, ac estyn llongyfarchiadau ar ran y Cyngor i'r Cyng. Bryan Davies am ei gyfraniad. Rhoddodd Cyng. Bryan Davies adroddiad or materion a drafodwyd mewn Cyfarfod Zoom Heddlu Dyfed Powys a fynychodd ar 26ed o Chwefror 2021.</p>
72	<p><u>Cynllunio</u></p> <p>Ymgynghoriad Cynllunio PL/01060 - Adeiladu 4 annedd ar dir â chaniatâd amlinellol am 2 annedd a roddwyd yn flaenorol o dan rhif:W/37199 ar17/09/2018 - Tir Waunddu, Hermon SA33 6SR. Trafodwyd Cais PL/01060 a phenderfynodd y Cyngor cefnogi'r cais.</p>
73	<p><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u></p> <p>Nos Lun, 19fed Ebrill 2021 am 19.30.</p> <p>Daeth y cyfarfod i ben am 21.30.</p>

Arwyddwyd.....Dyddiad.....